



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymateb

Gweithio'n Effeithiol drwy Bartneriaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Newid arfaethedig i ffiniau'r Bwrdd Iechyd i gysoni'r
modd y gwneir penderfyniadau ar draws Iechyd a
Llywodraeth Leol

Mehfin 2018

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Gymraeg hefyd.
This document is also available in Welsh.

1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Weithio'n Effeithiol drwy Bartneriaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 13 Rhagfyr 2017 yn dilyn trafodaeth gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn barn ynghylch y cynnig y dylai gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn hytrach na Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i gysoni'r modd y gwneir penderfyniadau ar draws iechyd a llywodraeth leol. Amlinellodd mai pwrpas y newid arfaethedig yw sicrhau y gellir gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau yn fwy effeithiol ar draws De Cymru o fewn yr uchelgeisiau ehangach ar gyfer diwygio llywodraeth leol a'r fforymau cynllunio iechyd rhanbarthol presennol.

Mae mwyafrif yr awdurdodau yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaethau gyda'r un awdurdodau ar draws gweithgarwch economaidd, gwasanaethau iechyd a swyddogaethau eraill awdurdodau lleol. Yn unigryw, mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn ne ddwyrain Cymru i sbarduno gweithgarwch economaidd, ond mae'n rhaid iddo weithio gydag awdurdodau lleol yn ne-orllewin Cymru o fewn ardal BIP Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd.

Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai newid ffin y bwrdd iechyd yn:

- sicrhau nad oedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr dan anfantais trwy weithio ar draws dau ôl troed strategol;
- sefydlu CBS Pen-y-bont ar Ogwr o fewn ôl troed rhanbarthol de-ddwyrain Cymru ar gyfer darpariaeth gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gan ategu partneriaethau economaidd ac addysg sy'n bodoli'n barod.
- sicrhau y bydd trefniadau partneriaeth CBS Pen-y-Bont ar Ogwr yn rhai y gellir eu cymharu'n fras â holl drefniadau partneriaeth awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Newid gweinyddol sy'n cael ei gynnig; nid newid gwasanaeth. Ond disgwylid i drefniadau partneriaeth symlach, mwy rhesymegol gyflawni canlyniadau gwell i bobl a chymunedau ar draws CBS Pen-y-bont ar Ogwr a'i awdurdodau partner.

Gellir gweld yr ymgynghoriad llawn a'r dogfennau cysylltiedig yma:

<https://beta.gov.wales/proposed-health-board-boundary-change-bridgend>

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 7 Mawrth 2018. Mae rhestr o ymatebwyr nad oeddent yn dewis bod yn ddiennw yn Atodiad A. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion wedi'u dosbarthu yn ôl sector ar gael yn Atodiad B ac mae modd ei weld o'r wefan fel dogfen ar wahân.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno barn ymatebwyr i'r cwestiynau a geir yn y ddogfen ymgynghori.

2. Methodoleg

Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r cyfranogwyr am eu barn mewn perthynas â saith cwestiwn a ofynnodd a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â datganiad penodol ac a oedd yn cynnig cyfle i roi sylwadau i egluro'r ymateb le / Na a roddwyd. Dychwelwyd pob ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein neu'r ffurflen ymateb y gellid ei lawrlwytho ac a gafodd ei e-bostio /phostio i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Derbyniwyd cyfanswm o 145 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda 8 yn cael eu diddymu wedyn fel dyblygiadau amlwg. O'r 137 o ymatebion a ystyriwyd fel rhan o'r dadansoddiad, gofynnodd 70 o'r ymatebwyr am fod yn anhysbys, ac anfonwyd 13 ffurflen fel ymatebion naratif. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb y cwestiynau'n uniongyrchol; dewisodd rhai beidio ag ateb cwestiwn penodol ac anfonodd 13 grynodedb o'u barn yn lle'r ffurflen ar y we. Ni wnaeth pob ymatebydd ymateb i bob cwestiwn; lle mae hyn yn wir, ni fydd y canrannau a ddangosir yn adran 4 yn adio at 100%. Yn y dadansoddiad hwn rhoddir gwerth cyfartal i bob ymateb.

Nid yw'r ymatebion naratif yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau le / Na sydd wedi'u cynnwys gyda phob cwestiwn. Ond cawsant i gyd eu cynnwys wrth ystyried y naratif sy'n cyd-fynd â phob adran yn y ddogfen hon.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o nifer yr ymatebwyr o wahanol fathau yn seiliedig ar y sector. Gellid dadlau y gallai rhai o'r ymatebwyr fod wedi cael eu grwpio mewn dau neu fwy o'r categorïau neu mewn categori arall, er enghraifft, gellid cyfiawnhau cynnwys arweinydd awdurdod lleol naill ai yn y sector llywodraeth leol neu yn sector y cynrychiolwyr etholedig, ac felly mae categorieiddio yn ddarostyngedig i elfen o ddehongli. Mae'r tabl, felly, wedi'i gynnwys fel arwydd o'r mathau o ymatebwyr a wnaeth gyflwyniad.

Categori	Niferoedd
Cyrff Iechyd	11
Cyrff y Trydydd Sector / Sefydliad Gwirfoddol	10
Llywodraeth leol	6
Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi	90
Cynrychiolwyr Etholedig	5
Byrddau / Cymdeithasau Cyhoeddus	3
Gwasanaethau Brys a Gwasanaethau Cyhoeddus Eraill	5
Eraill / Undebau Llafur	7
Cyfanswm	137

Mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru dri digwyddiad rhanddeiliad trwy wahoddiad yn ardal bwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i drafod cynnig yr ymgynghoriad.

Y rhain oedd:

- digwyddiad Rhanddeiliaid Panel Dinasyddion y Bae Gorllewinol a fynychwyd gan sefydliadau'r sector gwirfoddol, gofalwyr ac unigolion;
- fforwm SHOUT 50+ Pen-y-bont ar Ogwr; a
- Sesiwn Datblygu Aelodau Cyngor Iechyd Cymuned Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Cofnodwyd pwyntiau trafod o bob un o'r digwyddiadau rhanddeiliaid ac fe'u hadlewyrchir yn y dadansoddiad hwn. Fe wnaeth rhai sefydliadau ac unigolion a fynychodd y digwyddiadau hefyd gyflwyno ymateb ar-lein ar wahân neu ymateb arall.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwestiynau sydd wedi'u grwpio yn ôl pwnc. Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr bwyntiau tebyg ynghylch y cwestiynau sydd wedi'u grwpio, mewn un neu'r llall o'r cwestiynau.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a gymerodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad neu a fynychodd ddigwyddiad i drafod y cynnig.

3. Negeseuon Allweddol

- roedd yr ymatebion yn gymharol gytbwys rhwng y rhai a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd yn anghytuno y byddai newid ffin y bwrdd iechyd yn cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth;
- roedd ymatebwyr a wnaeth gynnwys sylwadau yn cefnogi'r cynnig yn ystyried y byddai trefniadau partneriaeth yn cael eu cryfhau gan y newid i'r ffin, ac roeddent yn tueddu i gytuno bod y trefniadau presennol yn heriol i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr;
- Roedd y rhai a ddaeth i'r casgliad nad oeddent yn ystyried y byddai trefniadau partneriaeth yn cael eu cryfhau gan y newid i'r ffin yn gyffredinol yn mynegi pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar wasanaethau iechyd, materion trafniadaeth sy'n gysylltiedig â phryderon ynghylch newid lleoliad gwasanaeth, cost a newidiadau i ofal unigol;
- roedd cydberthynas gref rhwng y materion a godwyd yn y digwyddiadau i randdeiliaid a'r ymatebion ar-lein i'r ymgynghoriad;
- tynnodd yr ymgynghoriad sylw at y ffaith y byddai angen cysoni byrddau partneriaeth rhanbarthol a byrddau diogelu dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai angen ystyried goblygiadau ar gyfer trefniadau rhanbarthol eraill hefyd;
- mynegodd y sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â chyflawni'r newid ffin farn gref y byddai'n well ganddynt fis Ebrill 2019 yn hytrach nag Ebrill 2020, y dyddiad arall a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad; ac
- fe wnaeth ychydig o ymatebwyr grybwyll materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg neu'r asesiadau effaith ar gydraddoldeb.

4. Ymateb i'r Cwestiynau

Cwestiynau 1 a 2: Trefniadau gweithio mewn partneriaeth a phroblemau, manteision neu risgiau

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y byddai newid ffin y bwrdd iechyd yn cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac ardal Bae Abertawe?

Cwestiwn 2: A oes unrhyw broblemau, manteision neu risgiau sy'n benodol i'r newid arfaethedig i ffiniau nad ydynt yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad hwn neu yr hoffech roi sylwadau arnynt?

Cwestiwn 1:		Cwestiwn 2:	
Ydw	54 45%	Oes	91 73%
Nac ydw	58 48%	Nac oes	28 22%

Yn gyffredinol roedd cyrff iechyd, llywodraeth leol a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a byrddau iechyd Prifysgol ABM a Chwm Taf yn cytuno y byddai newid ffin y bwrdd iechyd yn ôl y bwriad yn cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

Roedd BIP ABM o'r farn y byddai'r newid yn arwain at fuddion sylweddol i bobl Pen-y-bont ar Ogwr a byddai hefyd yn rhoi'r cyfle, gan weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, i ailasesu trefniadau gweithio ar y cyd ar draws ardal BIP ABM sydd ar ôl, gan sefydlu mwy o ffocws strategol hefyd o amgylch ffin ddiwygiedig y bwrdd iechyd.

Yn eu hymateb, ailddatganodd Cwm Taf eu cyflwyniad i'r Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol 'Cadernid ac Adnewyddiad' a nododd y risg i GBS Pen-y-bont ar Ogwr o weithio ar draws dau ôl troed strategol ac roedd yn cynnig y byddai'n ddoeth ystyried adlinio'r ffin. Maent yn pwysleisio bod cysoni ffiniau rhwng iechyd a llywodraeth leol, yn eu profiad nhw, yn gryfder allweddol i ddarparu gwasanaethau integredig llwyddiannus i'r boblogaeth gyfan.

Mae ymateb Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod bod yna rwystrau sylweddol i weithio'n effeithiol yn codi oherwydd bod Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ystyried fel bod mewn ôl troed gwahanol ar gyfer gwahanol wasanaethau, sy'n gwneud rhai agweddau ar weithio mewn partneriaeth yn ddiangen o anodd a chymhleth.

Mae Prifysgol ABM a Chwm Taf yn pwysleisio pwysigrwydd adnoddau mewn trefniadau pontio ac wrth ystyried y setliad ariannol yn y dyfodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Amlygodd Prifysgol ABM hefyd bwysigrwydd cynnal llif y cleifion a bod nifer o wasanaethau yn Abertawe yn dibynnu ar fas critigol i'w cynnal. Roeddent hefyd o'r farn y byddai disgwyl gwell mynediad at wasanaethau i gleifion a gwell

integreiddio gofal gydag amser, a allai olygu wrth i fodolau gwasanaeth esblygu a newid, yna gallai llif y cleifion newid. Fe wnaeth BIP Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Ambiwlans gyfeirio hefyd at y ffaith y bydd angen ystyried yr effaith ar lif y cleifion mewn trefniadau comisiynu, ymhlith goblygiadau eraill.

Ystyriai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod dileu cymhlethdodau ymgysylltu â phartneriaid lluosog yn synhwyrol, ond tynnodd sylw at y ffaith pe bai'r newid yn digwydd y byddai diffyg parhad rhwng y data a'r adroddiadau oedd yn seiliedig ar olion traed y bwrdd iechyd presennol ac adroddiadau yn y dyfodol pe bai'r newid yn mynd rhagddo. Maent hefyd yn pwysleisio y byddai darparu gwasanaethau yn newid o ran darpariaeth iechyd cyhoeddus lleol a darparu gwasanaethau diogelu iechyd, sgrinio a microbiolog.

Roedd ymatebion gan gynrychiolwyr etholedig yn cynnwys pryderon ynghylch newid yn y gwasanaethau, er enghraifft canoli gwasanaethau a dyrannu adnoddau o dan y trefniadau newydd arfaethedig. Roedd rhai aelodau etholedig o'r farn y byddai trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn cael eu gwella ac nad oedd ôl troed Bae Abertawe wedi gweithio'n dda oherwydd nad yw ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn cydfynd yn naturiol ag Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr i gwestiynau 1 a 2 yn unigolion neu ni wnaethent nodi eu bod yn ateb ar ran sefydliad yn eu hymateb.

Roedd yr unigolion hynny a ddywedodd eu bod yn anghytuno â'r datganiad a wnaed yng nghwestiwn 1 (56%) yn fwy tebygol o ychwanegu sylw ychwanegol na'r rhai oedd yn cytuno gyda'r datganiad (41%). Yn yr un modd, roedd yr unigolion hynny a ymatebodd yn gadarnhaol i gwestiwn 2 (73%) yn fwy tebygol o gynnwys sylw gyda'u hateb.

Roedd ymatebwyr unigol a gytunai y byddai trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn cael eu cryfhau gan y cynnig yn ystyried yn gyffredinol ei bod yn rhesymegol i gysoni a lleihau trefniadau partneriaethau.

Roedd ymatebwyr unigol a ymatebodd yn negyddol yn cynnwys sylwadau a oedd yn canolbwyntio'n gyffredinol ar bedwar mater allweddol oedd yn canolbwyntio ar bryderon ynghylch effaith niweidiol ar wasanaethau. Y rhain oedd:

- (a) newid i ddarparu'r gwasanaeth ei hun;
- (b) materion trafniadaeth oedd yn gysylltiedig â phryderon ynghylch newid lleoliad gwasanaeth;
- (c) cost; a
- (d) newid mewn gwasanaethau gofal unigol a pharhad gofal.

Roedd llawer o'r farn bod trefniadau partneriaeth ar draws ardal bwrdd iechyd prifysgol ABM presennol eisoes wedi'u sefydlu ac y byddai'r newid arfaethedig yn ddryslyd ac yn amharu ar wasanaethau. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar ansicrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r trefniadau partneriaeth sefydledig presennol ac y byddai'r newid yn y ffin yn arwain at israddio gwasanaethau yn lleol, er enghraifft gwasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, neu y byddai safonau gwasanaeth yn gyffredinol yn dioddef. Mae enghreifftiau penodol o'r maes pryder hwn yn cynnwys darnio gwasanaethau cyflenwol a newidiadau i lif y cleifion. Roedd

hyn yn gysylltiedig â phryderon ynghylch parhad triniaeth unigol i gleifion, er enghraifft newidiadau i'r gweithiwr meddygol proffesiynol fyddai'n darparu gofal y byddai perthynas bersonol wedi'i sefydlu ag ef yn barod.

Oherwydd canfyddiad y byddai newid daearyddol yn y canolfannau darparu gwasanaethau tuag at Ferthyr a Rhondda Cynon Taf, roedd pryderon trafndiaeth yn canolbwyntio ar y pellter, yr amser a'r anhawster wrth deithio i'r gogledd yn lle i'r gorllewin i gleifion. Er enghraifft, roedd enghraifft benodol gyffredin yn cynnwys teithio ar y ffordd neu gludiant cyhoeddus i Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr, yn hytrach nag i'r gorllewin ar hyd yr M4 i Ysbyty Treforys. Roedd pryderon eraill am drafnidiaeth yn canolbwyntio ar newid o ran darparu gwasanaethau unigol o fewn Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r rhain yn symud i'r gogledd.

Mynegodd unigolion bryderon am y gost o weinyddu'r newid ar adeg pan fo pwysau sylweddol ar adnoddau ariannol. Ymhlith y pryderon ynghylch costau, roedd newidiadau i'r setliadau ariannol a'r effaith ar weddill ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM. Yn gysylltiedig â phryderon ynghylch y costau oedd yr amser y gellid ei neilltuo i weinyddu'r newid.

Roedd y pryderon hyn yn gyffredin ymhlith yr ymatebion ar-lein ac ymatebion eraill hefyd ac fe'u mynegwyd gan y rhanddeiliaid lleol hynny a fynychodd y digwyddiadau ymgynghori yn ardal BIP ABM.

Y tu allan i'r pedair thema allweddol hyn, soniwyd hefyd am yr effaith ar y trydydd sector lle mae'r adnoddau a'r perthnasoedd wedi'u cysylltu â threfniadau'r bwrdd iechyd presennol, yr effaith ar wasanaethau yn ardal bwrdd iechyd prifysgol ABM sy'n weddill, ansicrwydd i staff, a'r her o ddadagregu gwasanaethau.

Fe wnaeth grwpiau a mudiadau Gwirfoddol/Trydydd Sector grybwyll nifer o'r themâu a amlygwyd mewn ymatebion unigol. Efallai bod hyn oherwydd bod nifer o'r grwpiau a gyfrannodd at y digwyddiadau ymgynghori hefyd wedi ysgogi ymatebion unigol a thrafodaeth yn canolbwyntio ar y materion penodol hyn. Roeddent felly yn adlewyrchu pryderon cyffredin unigolion a'u defnyddwyr gwasanaeth.

Pwysleisiodd rhai o'r ymatebion gryfder y trefniadau partneriaeth presennol a'r buddsoddiad a wnaed ynddynt. Yn ogystal, mynegodd sefydliadau'r sector gwirfoddol bryderon ynghylch sut y byddai'r newid yn y ffin yn effeithio ar eu trefniadau gwasanaeth ac ariannu gan bob un o'r byrddau iechyd, o fewn Pen-y-bont ar Ogwr ei hun ac ar draws ardaloedd byrddau iechyd prifysgol ABM a Chwm Taf yn ehangach a sut y gellid dosrannu eu harian.

Pwysleisiodd y Coleg Nyrso Brenhinol bwysigrwydd ymgysylltu ag undebau llafur a chyrff proffesiynol. Mynegwyd pryderon ynghylch diwylliannau mewn gwahanol weithleoedd a'r effaith bosibl ar wasanaethau arbenigol. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod yna wahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae rolau wedi'u strwythuro rhwng y gwahanol fyrddau iechyd ac yn ystyried y byddai yna faterion clinigol, cynllunio a gweithredol y byddai angen eu hystyried pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Cwestiynau 3 a 4: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a deddfwriaeth arall

Cwestiwn 3: Os gweithredir y newid ffiniau, bydd angen diwygio rheoliadau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd i ail-alinio byrddau partneriaeth rhanbarthol a phartneriaethau sy'n diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. A oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi ynghylch newidiadau canlyniadol i Reoliadau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)?

Cwestiwn 4: A oes unrhyw Reoliadau neu ddarpariaethau eraill o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) neu deddfwriaeth arall y dylid ystyried eu diwygio os gweithredir y newid arfaethedig i ffiniau'r Bwrdd Iechyd?

Cwestiwn 3:		Cwestiwn 4:	
Oes	46 38%	Oes	22 19%
Nac oes	68 57%	Nac oes	81 70%

Rhoddodd llai na 40% o gyfanswm yr ymatebwyr sylw ychwanegol ar gwestiwn 3 ac roedd llawer o'r ymatebwyr a wnaeth sylw yn nodi'r materion cyffredinol a godwyd mewn ymateb i gwestiynau 1 a 2. Derbyniwyd ychydig yn llai o sylwadau eto i gwestiwn 4.

O'r rheiny a wnaeth sylwadau ar y mater a godwyd gan y cwestiwn, cyfeiriodd nifer at y ffaith y byddai ar Fyrddau Diogelu Plant angen eu hadlinio, a dywedodd eraill y byddai goblygiadau i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mynegwyd pryderon ynghylch elfennau unigol o'r trefniadau partneriaeth cyfredol a oedd yn adlewyrchu'r rhai a godwyd mewn ymateb i gwestiynau 1 a 2.

Roedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr o'r farn y dylai adlinio byrddau partneriaeth rhanbarthol ei gwneud yn bosibl i weithio ar draws y ddwy ardal am gyfnod i sicrhau na chaiff achosion unigol eu colli rhwng yr asiantaethau statudol allweddol. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod cyfle i ystyried sefydlu Bwrdd Diogelu De Cymru y byddai ei ffin yn cyd-fynd â ffin Heddlu De Cymru.

Wrth wneud pwynt tebyg, roedd Cyngor Abertawe o'r farn y byddai angen digon o hyblygrwydd yn unol â rheoliadau yn ystod cyfnod pontio, gan amlygu risg o ran amseru newidiadau i reoliadau yn erbyn yr amserlen sydd ei hangen i ail-ffurfio rhaglen bresennol Ardal Bae'r Gorllewin.

Pwysleisiodd Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru pa mor bwysig oedd hi i waith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r trefniadau diogelu gael ei gysoni â gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pwysleisiodd Heddlu De Cymru y byddai angen eglurder ar faterion aml-asiantaeth ar draws ffiniau sefydliadol ar ystod o faterion, gan gynnwys diogelu plant ac oedolion bregus.

Tynnodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol sylw at y ffaith o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod trefniadau cydweithredol ar waith ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd a

maethu. Gan gyfeirio at wasanaethau mabwysiadu mewn mwy o fanylder, roeddent yn ystyried ei bod hi'n anodd gweld sut y bydd newid yn hyrwyddo gwelliant parhaus mewn gwasanaethau er budd dinasyddion y rhanbarth.

Nododd Cyngor Abertawe hefyd y byddai angen ystyried y rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau mabwysiadu a gwasanaethau cymorth integredig.

Cwestiwn 5: Amseru'r newid i'r ffin

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu bod 1 Ebrill 2019 fel dyddiad i'r newid i'r ffin ddod i rym yn realistig ac yn gyraeddadwy?

Cwestiwn 5:	
Ydy	55 46%
Nac ydy	62 52%

Roedd byrddau iechyd prifysgol ABM a Chwm Taf o'r farn bod 1 Ebrill 2019 yn heriol ond cytunwyd ei fod yn gyraeddadwy ac yn realistig. Mynegodd BIP ABM farn bendant y dylid gwneud y newid ym mis Ebrill 2019 ac awgrymodd y byddai unrhyw oedi yn niweidiol o ran morâl y staff ac ymgysylltiad.

Ystyriai CBS Pen-y-bont ar Ogwr hefyd fod Ebrill 2019 yn rhoi digon o amser i gynllunio wrth osod disgwyliad clir hefyd o ran cyflymder a brys, gan hyrwyddo cyfnod pontio wedi'i gynllunio hefyd ar gyfer y partneriaethau perthnasol dros y flwyddyn ganlynol. Dywedodd Cyngor Abertawe y byddent yn cefnogi gweithredu mor gynnar ag y gellir ei gyflawni yn realistig ac yn ddiogel.

Roedd rhai o'r farn y byddai'r amserlen arfaethedig yn rhy gymhleth a theimlai rhai y byddai'n heriol ond yn gyraeddadwy gyda chynllunio priodol.

Cwestiwn 7: Asesiad Effaith

Cwestiwn 6: Mae'r Asesiad o Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ynghylch effaith y cynnig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Mewn perthynas â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn:

- A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol?
- A oes modd ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

Cwestiwn 7: Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am effaith y cynigion ar grwpiau gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar yr asesiad hwnnw:

- A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol eraill na chafodd eu nodi yn yr asesiad?
- A oes modd ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

Cwestiwn 6a		Cwestiwn 6b	
Oes	25 22%	Oes	33 29%
Nac oes	72 63%	Nac oes	63 56%

Cwestiwn 7a		Cwestiwn 7b	
Oes	23 20%	Oes	30 28%
Nac oes	69 61%	Nac oes	59 56%

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y mater o'r farn nad oedd unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn gysylltiedig â'r cynnig. Fel enghraifft, tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith nad yw cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg yn dibynnu ar ble mae'r ffin rhwng Byrddau Iechyd cyfagos yn cael ei dynnu.

Roedd y mwyafrif o'r farn nad oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar gydraddoldeb yn deillio o'r cynnig.

5. Y camau nesaf

Anfonir copi o'r crynodeb ymgynghori hwn at bob un o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac at sefydliadau a hwylusodd y digwyddiadau i randdeiliaid. Bydd y crynodeb ymgynghori hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ystyried y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig ac wrth wneud penderfyniad ynghylch y newid ffiniau.

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr na wnaethant ddewis bod yn ddiennw:

Enw	Sefydliad
Peter Evans	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Jim Widdett	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
David Hawker	Gofalwr Preifat a Phensiynwr
Huw Davies	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
David Parry	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
David R Harries	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Chris Brown	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
N P Thomas	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Sandra Miller	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Nigel Radcliffe	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Geoff Bell	Cadeirydd Fforwm 50+ Llantrisant a'r Cylch
Kathryn Charles (Clerc)	Cyngor Tref Castell-nedd
S Pearson	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Chris Sivers	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Pamela Quelch	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
David Isaac	Cyngor Tref Llansawel
Mrs P Pulley	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Vanessa Townsend, Therapydd Galwedigaethol Arweiniol Ardal Pen-y-bont ar Ogwr	Uned gyflenwi iechyd meddwl ac anabledau dysgu, Bwrdd Iechyd ABM
Darren Matthews MBE	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Iwan Cray	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Karl Williams	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Dr Andar Gunneberg, Patholegydd Cemegol Ymgynghorol, Arweinydd Clinigol ar gyfer Meddygaeth Labordy	Meddygaeth Labordy BIP ABM (cyfunwyd Biocemeg Glinigol a Hematoleg Labordy, rhan o Batholeg)

BIP ABM	
Rhodri Davies	Y Gymdeithas Strôc / The Stroke Association
Prif Arolygydd John Wainwright	Heddlu De Cymru
Chris Mann, Cadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr	Cyngor ar Bopeth, Abertawe Castell-nedd Port Talbot
Susan Cooper, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Rena Sweeney (ar ran y Bwrdd Rheoli)	Gofal a Thrwsio Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Howard John	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Grŵp Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaeth Pen-y-bont ar Ogwr	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
Jean Matthes	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Tony Jackson ar ran y Prif Swyddog Tân, Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Stephen Allen	CIC Caerdydd a Bro Morgannwg
Pwyllgor Ymgynghorol Seicoleg BIP ABM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIP ABM)
David Rees AC / Stephen Kinnock AS	Cynrychiolwyr etholedig ar gyfer Aberafan
Suzann Griffiths	Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg	Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
N	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Paul Harding	Marie Curie
Uned Gyflenwi Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Michelle Caple (ar ran Sian Hibbs)	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru.
Y Cyngorydd Andrew Morgan Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.
CVS Castell-nedd Port Talbot.	CVS Castell-nedd Port Talbot.
Helen Evans	Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl Castell-nedd Port Talbot.
Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Heidi Bennett	CGS Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
Siân Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Phil Bushby, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Becky Hancock	Canolfan Gweithredu Cymru ar Ddibyniaeth a Chaethiwed (WCADA)
Bethan Sayed AC a Dr Dai Lloyd AC.	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Dr Sian Lewis, Rheolwr Gyfarwyddwr	Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Abi Harris - Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol	Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Dr JI Baker MA FRCP	Ymgynghorwyr Meddygol Lliniarol yn Ne Orllewin Cymru
Les Rees	Plaid Lafur Etholaeth Aberafan
Darren Mephram	Aelodaeth BIC Pen-y-bont ar Ogwr
Kirsty Roderick	Rhanddeiliaid Cyfun Bae'r Gorllewin
Stella Leyshon	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Karyl Carter	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi

S Oelofse	Clwb Strôc Pen-y-bont ar Ogwr
S O'Reilly	Clwb Strôc Pen-y-bont ar Ogwr
Henry Harris	Unigolyn / Sefydliad heb ei nodi
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf